



# E-GYLCHLYTHYR Gaeaf 2018



## Diweddariad TYR

Mae ein 9fed cylchlythyr yn dod â ni i ddiwedd blwyddyn brysur yn 2018. Mae'r flwyddyn wedi gweld y tîm yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws y rhanbarth i gefnogi galwadau am gyllid, gweithdai arbennig i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â GDPR, sefydlu rhwydweithiau newydd a hwyluso tri digwyddiad gwybodaeth, y cyfan mewn hinsawdd ansicr wrth i ni agosáu at Brexit.

Wrth i'r ansicrwydd barhau o ran y ffordd y bydd buddsoddiad rhanbarthol i'r dyfodol yn edrych, mae gennym Warant Trysorlys y DU ar waith a fydd yn ein galluogi ni i ganolbwyntio'r ymdrechion ar gyflawni prosiectau cymeradwy, sy'n ceisio gwneud y mwyaf o effaith y rownd olaf hon o gyllid yr UE. Bydd hi'n hollbwysig cyd-dynnu'r arfer gorau a'r gwersi a ddysgwyd o'n profiadau hyd yma er mwyn i ni allu llywio datblygiad yr hyn a ddaw nesaf.

Hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth ar hyd y flwyddyn. Mae gweithio mewn partneriaeth yn swnio fel cysyniad syml ond cydnabyddwn yr egni a'r ymrwymiad mae'n ei gymryd i'w wireddu. Dymunwn Nadolig Llawen iawn i chi gyd ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi yn 2019 a ddylai fod yn flwyddyn ddiddorol!

*Lisa, Amy, Natalie, Nicola a Jan*



## Yn y rhifyn hwn

### Diweddariad TYR

Tudalen 1

### Perfformiad rhanbarthol

Tudalen 2

### Cynhadledd a Gwobrau'r

### Sefydliad Dysgu a

### Gwaith

Tudalen 2

### Llwyddiant

### cyflogadwyedd

Tudalen 3

### Horizon 2020

Tudalen 4

### Bargen Ddinesig CCR

Tudalen 4

### Tasglu'r Cymoedde

Tudalennau 5 & 6

### Newyddion WEFO

Tudalen 6

### Digwyddiad blynyddol

### WEFO

Tudalen 7

### Blaenoriaeth CGE

### Newydd

Tudalen 8

01656 815327 | [SEWalesRET@bridgend.gov.uk](mailto:SEWalesRET@bridgend.gov.uk)

[www.sewales-ret.co.uk](http://www.sewales-ret.co.uk) | [@SEWalesRET](https://twitter.com/SEWalesRET)



## Perfformiad Rhanbarthol

Dyma'r penawdau ffigurau diweddaraf ar gyfer perfformiad y gweithrediadau a ariennir gan gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn Rhanbarth De-Ddwyrain Cymru. Mae'r data ar gael mewn rhagor o fanylder ar [wefan WEFO](#).

Cronfa	Dangosydd	Ffigyrau ar gyfer rhanbarth y de-ddwyrain
ERDF	Mentrau a gafodd eu cynorthwyo	2,704
	Mentrau a gafodd eu creu	524
	Swyddi a grëwyd	4,843
ESF	Cyfranogwyr a gafodd eu cynorthwyo	85,948
	Cyfranogwyr a gafodd eu cefnogi i gael cyflogaeth	3,433
	Cyfranogwyr a enillodd gymwysterau	34,064
	Cyfranogwyr mewn addysg / hyfforddiant	2,958

[...yn ôl i'r brig](#)

### Cynhadledd a Gwobrau'r Sefydliad Dysgu a Gwaith

Ar ddiwedd mis Tachwedd, cynhaliodd [y Sefydliad Dysgu a Gwaith](#) ei gynhadledd Cyflogadwyedd a Sgiliau flynyddol yn Stadiwm Dinas Caerdydd.

Roedd y ffocws ar yr ugain mlynedd diwethaf o ddatganioli a'r hyn a gyflawnwyd yn ystod yr amser hwnnw, yn ogystal â meysydd y mae dal angen i Gymru wella arnynt.

Mynychwyd y digwyddiad yn dda iawn gyda 140 yn bresennol. Roedd TYR De Ddwyrain Cymru hefyd yn gallu bod yno a chyflwynon nhw weithdy ar **Dal y Gorau o Gronfa Gymdeithasol Ewrop**. Ymdriniodd gweithdai eraill â'r canlynol:

- I ble mae marchnadoedd llafur Cymru'n mynd?
- Esblygiad darpar ddysgwyr yn gwneud penderfyniadau
- Cymru ar ei gorau: mynd i'r afael â'r bwlc cyflogaeth i'r anabl
- Gwella dilyniant swyddi yng Nghymru
- Diweddariad ar Gyflogadwyedd Llywodraeth Cymru
- Dal y gorau o Gronfa Gymdeithasol Ewrop
- Pa ddyfodol sydd i bobl ifanc

- Gwella addysg a chyflogadwyedd i droseddwy'r Cymru
- Dyfodol y proffesiwn cyflogadwyedd

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yn yr adborth a'r drafodaeth yng ngweithdy Cronfa Gymdeithasol Ewrop a hwyluswyd gennym, cysylltwch â ni yn [sewalesret@bridgend.gov.uk](mailto:sewalesret@bridgend.gov.uk) ac fe anfonwn ni'r nodiadau atoch chi.




Cafwyd araith gyweirnod y dydd gan Eluned Morgan AC, gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a chafwyd sesiwn holi ac ateb i ddilyn. Darparodd y gweinidog drosolwg o'r rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd a'r mentrau a lanswyd gan Lywodraeth Cymru dros y deuddeg mis diwethaf ac amlygwyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau'r bwlc cyflogaeth i bobl anabl yng Nghymru.

[...yn ôl i'r brig](#)

## Llwyddiant cyflogadwyedd

Gyda'r gweithrediadau ar draws y rhanbarth bellach yn y cam cyflwyno i raddau helaeth, dyma rai cerrig milltir sylweddol sy'n cael eu cyrraedd y dylid eu dathlu.

Ym mis Hydref, [cyhoeddodd](#) Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes fod Llywodraeth Cymru wedi arwain y rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ([PaCE](#)) i'w 1000<sup>fed</sup> cyfranogwr i waith. Un o'r rhai a gafodd ei helpu'n ddiweddar gan y rhaglen yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru yw Chanelle. Roedd hi'n unig riant di-waith a



arferai weithio fel gyrrwr danfon nwyddau. Roedd angen swydd fwy hyblyg arni ac roedd hi am sefydlu ei busnes peintio

ac addurno ei hun. Helpodd Raglen PaCE hi i gyflawni hyn trwy roi cefnogaeth iddi fynd ar gwrs yn y coleg, ennill grant sefydlu a chael cyngor ar sut i gael benthyciad am gerbyd i'r cwmni. Mae hi bellach yn rhedeg The Lady Paint and Decor Co a enillodd y wobr aur yng nghystadleuaeth peintio Crown i Newydd Ddyfodiaid y llynedd.

Yn ddiweddar, cefnogodd [Pontydd i Waith](#) ei 700<sup>fed</sup> cyfranogwr i leoliad gwirfoddoli. Ar ôl bod allan o waith ers nifer o flynyddoedd, cafodd Andrew Morgan, o Flaenafon, Torfaen ei annog gan y tîm i fynychu canolbwynt cymunedol Pontydd i Waith 2 yn Academi Melin. Fel rhan o'i gynllun gweithredu a gefnogir, cyflawnodd Andrew gymhwyster lefel 2 mewn Cymorth Cyntaf ac yna sicrhodd leoliad gwirfoddoli yn [Llantarnam Grange](#). Ers ei wythnos gyntaf, mae Andrew



wedi dod yn rhan annatod o'r tîm. Boed yn garddio, peintio, gwneud gwaith cynnal a chadw neu atgyweiriadau, rhoi silffoedd i fyny neu helpu sefydlu arddangosfeydd, mae Andrew wedi profi'n aelod amryddawn a hyblyg iawn o'r tîm, gyda chryn dipyn i'w gynnig i unrhyw ddarpar gyflogwr.



Mae WEFO wedi ymroi £1.8m yr wythnos hon i [JobSense](#) a fydd yn darparu gwasanaethau cyflogaeth a hyfforddiant arbenigol i bobl gyda phroblemau clyw neu olwg a fydd yn canfod eu hunain yn economaidd anweithgar neu'n ddi-waith yn y tymor hir. Bydd JobSense yn gweithio gyda chyflogwyr, yn ogystal â chyfranogwyr, i fynd i'r afael â'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl o ddwy ochr y broblem. Yn ychwanegol at hyn, mae'r newyddion o gyllid ychwanegol ar gyfer ['Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith'](#) Cymru lach ar Waith i ddarparu mynediad cyflym ac am ddim i therapi galwedigaethol i bobl gyda chyflyrau iechyd meddwl neu gorfforol er mwyn eu helpu i aros mewn cyflogaeth.

[...yn ôl i'r brig](#)

## Horizon 2020

Mae rhifyn Rhagfyr o [gylchlythyr Horizon 2020](#) bellach ar gael gyda newyddion ar gyfleoedd am gyllid, dyddiadau ar ddod i'ch dyddiadur a straeon newyddion da.



[...yn ôl i'r brig](#)

## Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae Frank Holmes, partner sefydlu Gambit Corporate Finance, yn cadeirio'r [Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol \(REGP\)](#) sy'n cynghori Cabinet



Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac yn arwain y cynllun twf economaidd sy'n sail i'r Fargen Ddinesig. Mae'n trafod nodau tymor byr a chanolig yr REGP fan hyn.

Nod yr REGP yw bod yn uchelgeisiol a chymell cynigion buddsoddi ystyriol a fydd yn gwella cynhyrchiant, gan droi gwendid economaidd yn gyfle. Bydd hyn yn gofyn am lawer mwy na £495 miliwn dan ei stiwardiaeth ymgynghorol.

Felly, rydym wrthi'n edrych i feithrin partneriaethau gyda'r gymuned o fuddsoddwyr i greu Cronfa Buddsoddi, Isadeiledd ac Arloesi gyda'r nod o gyflenwi cyfalaf tymor hir, cyd-fuddsoddi gyda chwmnïau sy'n mudo yma wrth geisio gwneud enillion o lefelau derbyniol, ailgylchu'r cyfalaf a byw oddi ar y llog, yn

wahanol i leoli grantiau.

Bydd y gronfa'n canolbwyntio ar gysylltedd ac isadeiledd, gan gofleidio cyfleoedd arloesi radical yn ogystal â mynd i'r afael â heriau deallusrwydd artifisial ac economi data, twf glân, dyfodol symudedd a chymdeithas sy'n heneiddio, y bydd y cyfan yn ffurfio'n hanghenion addysgol a sgiliau.

Mae gan yr REGP uchelgeisiau hefyd i arwain y cyflawniad trwy fentrau seiliedig ar ddata, wedi'u cefnogi gan ddiwydiant, rhynggranbarthol a rhyngwladol a thrwy greu marchnadoedd newydd yn y rhanbarth trwy gydpartneru â'r sector Cyhoeddus trwy fainc arbrofi Gwasanaethau Cyhoeddus, datgloi cyllid arloesol a chymryd risgiau sy'n gymesur â gwobrau ac enillion a aseswyd yn drwyadl. Rydym yn edrych hefyd i ddatblygu ffyrdd mwy cyfranogol o ymgysylltu, fel Galwadau a Gwobrau Her.

Ar yr un pryd, nod yr REGP yw meithrin ffydd, gwella sicrwydd ac ymarfer llywodraethu gorau yn y dosbarth. Y tu hwnt i Brexit, gallai'r Fargen Ddinesig fod yn gyfrwng ar gyfer cronfeydd eraill Llywodraeth y DU. Ni all Cymru fforddio colli allan ar ei chyfran o botyn y Trysorlys ac rydym yn codi'n llais ar y Gronfa Ffyniant



[...yn ôl i'r brig](#)

## Tasglu'r Cymoedd

**Ein Cymoedd  
Ein Dyfodol**  **Our Valleys  
Our Future**

Ers cyhoeddi [adroddiad cynnydd un flwyddyn](#) 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' ym mis Gorffennaf, mae'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De wedi adolygu ei waith a'r cynllun cyflwyno i sicrhau bod y camau ynddo'n parhau i fod yn addas i'r diben ac yn cyfrannu at y tair blaenoriaeth gyffredinol: swyddi da a'r sgiliau i'w gwneud; gwell gwasanaethau cyhoeddus a gwelliannau a ffocws ar y gymuned leol.

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus fod diweddariad i'r cynllun cyflwyno wedi'i gyhoeddi a oedd yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n ychwanegu gwir werth at gymunedau'r Cymoedd.

### A465

Mae ychwanegiad newydd at y cynllun yn cynnwys ffocws ar wneud y mwyaf o fanteision y buddsoddiad yn yr A465 i'r cymunedau lleol sydd ochr yn ochr â'r coridor pwysig hwn. Mae'r tasglu wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i ddynodi ac adeiladu ar y cyfleoedd am fuddsoddiad sy'n gysylltiedig â'r A465.



### Canolbwyntiau Strategol

Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol a'r Gwasanaethau Cyhoeddus gyllid cyfalaf o

£25m i gefnogi'r saith canolbwynt strategol dros y ddwy flynedd nesaf.

Mae awdurdodau lleol yn yr ardaloedd canolbwynt wedi arwain datblygiad y glasbrintiau ar gyfer gwelliannau tymor hir ym mhob canolbwynt strategol. Gan weithio gydag awdurdodau'r Cymoedd a Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, bydd manylion pellach ar y saith canolbwynt yn cael eu cyhoeddi yn ystod y Flwyddyn Nesaf.

Roedd cyllid datblygu ar gael i rai awdurdodau lleol yn yr ardaloedd canolbwynt strategol. Bydd hyn yn comisiynu ymarferoldeb a chynllun canolbwyntiau trafndiaeth integredig newydd, gan ddisodli, lle bo angen, y gyfnewidfa rheilffordd a bws presennol ac yn gwella isadeiledd a chysylltedd a fydd yn ymgorffori safleoedd datblygu metro allweddol. Bydd y cynlluniau hefyd yn ystyried yr uchelgeisiau adfywio ehangach ar gyfer yr ardaloedd.

### Cymorth busnes

Mae cyllid wedi'i ddarparu am ymgyrch cymorth busnes gyda ffocws sy'n dynodi ac yn dwyn ynghyd llwyddiant ymhlith cymunedau'r Cymoedd. Mae cyllid wedi'i ddyrannu hefyd am brosiect peilot i gefnogi rhwydwaith cymar wrth gymar ar gyfer sylfaenwyr neu arweinwyr busnes twf uchel yn y Cymoedd.

### Technoleg ddigidol

Mae tri chynllun peilot technoleg ddigidol ar gyfer y Cymoedd yn cael eu cynnwys yn y cynllun cyflwyno newydd a fydd yn cael ei oruchwylio gan lif gwaith digidol y tasglu:

- Bydd y tasglu'n gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i sicrhau bod ei Rhaglen Trafnidiaeth Ymatebol Integredig yn cludo pobl o'r rhannau mwy ynysig o'r Cymoedd i'r apwyntiadau iechyd ac oddi wrthynt yn fwy effeithiol. Bydd ap yn cael ei ddatblygu i gefnogi hyn.
- Y rhaglen WiFi i Fi – ffordd **Parhau...**

[...yn ôl i'r brig](#)

### ...parhau

gyffrous sy'n agor band eang y sector cyhoeddus i greu poethfannau WiFi cymunedol i'w defnyddio gan bawb yn yr ardal leol. Bydd ap yn cael ei greu hefyd, sy'n dangos lle mae'r poethfannau hyn yn y Cymoedd.

- Buddsoddiad yn yr arf mapio ledled Cymru, sef "Lle". Datblygu ei ymarferoldeb a'i gynnwys i alluogi mynediad hawdd i lu o ddata defnyddiol i lywio ac annog buddsoddiad yn y Cymoedd.

### Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Ym mis Hydref, cyhoeddodd Alun Davies AC, yr Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol, greadigaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd a lansiodd brosbectws yn gwahodd pobl eraill i helpu ffurfio'r Parc.

Adnewyddwyd adran Fy Nghymuned yn y cynllun cyflwyno i gyflawni cam cyntaf Parc Rhanbarthol y Cymoedd, sy'n canolbwyntio ar dair thema, sef tirwedd, diwylliant a hunaniaeth; adloniant a lles a chymunedau a menter.

Wrth wraidd y cynlluniau i'r parc rhanbarthol mae'r Pyrth Darganfod – lleoliadau ar draws y Cymoedd, a fydd yn olrhain straeon y

Cymoedd. Bydd y porth safleoedd hyn yn annog pobl i fod yn fwy bywiog ac archwilio'r tirweddau.

Y 6 safle cyntaf yw [Parc Gwledig Cwm Dâr](#), [Castell Caerffili](#), [Fforest Cwmcarn](#), [Canolfan Ymwelwyr Safle Treftadaeth Byd Blaenafon](#), [Parc Cyfarthfa](#) a [Pharc Gwledig Bryngarw](#).



Yn ogystal â'r rhain, cyhoeddodd Mr Davies (yn y llun) ar 11 Rhagfyr y bydd: "...[Parc Coffa Ynysangharad](#), [Parc Bryn Bach](#) a [Gwarchodfa Natur a Chanolfan i Ymwelwyr Parc Slip](#) hefyd yn cael eu datblygu yn safleoedd Porth Darganfod, gyda Gwarchodfa Natur a Chanolfan Ymwelwyr Bywyd Gwyllt Parc Slip, yn gweithio'n agos gyda Pharc Gwledig Bryngarw, fel porth rhanbarthol i Gymoedd Ogwr, Garw a Llynfi."

### ...yn ôl i'r brig

## Newyddion WEFO

Mae WEFO wedi cadarnhau y bydd y canllaw cymhwyster cyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop diwygiedig ar gael cyn diwedd y flwyddyn. Byddwn yn dosbarthu hwn cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei ryddhau.

Cyhoeddwn nhw hefyd newidiadau i'w strwythur uwch reolwyr. Mae Peter Ryland (yn y llun) eisoes wedi cymryd drosodd fel Prif Swyddog Gweithredol ac, yn dilyn ymddeoliad Jane MacMillan, sef Pennaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar ddiwedd mis

Tachwedd, bydd ei rôl yn cael ei llenwi gan Geraint Green, cyn Bennaeth y Gangen Ymchwil ac Arloesi ac Uned Horizon 2020.



### ...yn ôl i'r brig

## Digwyddiad blynyddol WEFO

Cynhaliwyd Digwyddiad Gwybodaeth Flynnyddol 2018 ar Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014 – 2020 ar 5 Rhagfyr yng Ngwesty'r Marriott, Caerdydd.



Agorwyd y digwyddiad gan Peter Ryland, Prif Weithredwr newydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), a roddodd drosolwg o gynnydd a datblygiadau rhaglenni 2014-2020, gan amlygu rhai llwyddiannau allweddol gan gynnwys y lefel uchel o gyllid sydd eisoes wedi'i hymroi, a nod parhaus WEFO am ymrwymiad llawn erbyn Mawrth 2019.

Rhoddodd Rob Halford ddiweddariad ar Ddyfodol Buddsoddi Rhanbarthol. Esboniodd gyda'r hinsawdd wleidyddol sydd ohoni, mae'n anodd rhoi unrhyw wybodaeth gadarn ar hyn o bryd ar ddyfodol cyllid rhanbarthol, ond mae sgysiau ar waith mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin newydd, a fydd yn disodli Cyllid yr UE. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n galed i sicrhau na fydd Cymru ar ei cholled o adael yr UE ac esboniodd Rob Halford ei bod hi'n bwysig symud dysgu yn ei flaen o'r rhaglen UE bresennol, gan ddal gwybodaeth allweddol wrth symud ymlaen er mwyn cynllunio rhaglenni i'r dyfodol.

Y lleafarydd cyweirnod ar gyfer y digwyddiad oedd Mark Drakeford AC, yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid. Cyhoeddodd gymeradwyaeth y cyllid am ddwy raglen ynni adnewyddadwy, £9m ar gyfer y cynllun GSCS (cyflenwad defnyddio storfeydd generaduron), a £0.9m ar gyfer Storfa Solar

Cymunedol Abertawe gyda phrosiect Cyflenwi Lleol Uniongyrchol.

Yn ogystal, dathlodd y digwyddiad nifer o lwyddiannau prosiect a ariennir gan yr UE. Ymhlith yr enillwyr prosiectau oedd:

### Mentor Gorau Rhanbarth De-orllewin Cymru

Suzanne Butterworth, Mentor Cymunedau am Waith

### Mentor Gorau Rhanbarth De-ddwyrain Cymru

Kirsty Keane, Mentor ar gyfer Hyfforddeiaethau

### Mentor Gorau Rhanbarth Gogledd a Chanolbarth Cymru

Larry Marsden, Prif Mentor Cyfoedion Cyfle Cymru

### Y Prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Gorau (gweler y ffotograff)

Enillwyd y wobwr hon gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am adfywiad [Lido Pontypridd](#). Roedd y prosiect yn un gwerth £3 miliwn a ariennir gan yr UE a adfywiodd y Lido Rhestredig Gradd II gwreiddiol o'r 1920au yn atyniad 21ain Ganrif i ymwelwyr. Mae gan yr atyniad dri phwll a wresogir a chanolfan ymwelwyr o'r radd flaenaf sy'n olrhain stori Lido Cenedlaethol Cymru.



Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr!

[...yn ôl i'r brig](#)

## Blaenoriaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop Newydd

Yn nigwyddiad blynyddol WEFO, cafwyd gweithdy gwybodaeth ar Flaenoriaeth 5 newydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop - diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gweithio rhanbarthol.

Gall cael y capasiti sefydliadol iawn ar waith chwyddo effaith ac impact buddsoddiadau rhanbarthol gan gynnwys y rhai o gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd, oherwydd byddai diffyg capasiti yn rhanbarthau Cymru mewn perygl o danseilio llwyddiant y buddsoddiadau sydd eisoes ar waith.

Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cynnig cyfle i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft, wrth roi'r defnydd o ddata mawr ar waith. Gallai camau mynegol a fyddai'n cael eu cefnogi gan y flaenoriaeth hon gynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- Aseidiadau o gapasiti a gallu ar gyfer

gweithio cydweithredol, gan gynnwys datblygu a lledaenu pecynnau cymorth a dulliau neu weithdrefnau newydd

- Meithrin gallu a chapasiti o fewn y partneriaethau sy'n bodoli
- Buddsoddiadau targedig ar gyfer partneriaethau rhanbarthol neu gydweithredol penodol lle mae asesiad o allu a chapasiti wedi digwydd.
- Gweithgareddau arloesol sy'n hyrwyddo arloesi cymdeithasol, defnyddio technoleg newydd, cyflwyno gwasanaethau newydd ac integreiddio gwasanaethau.
- Datblygu a gweithredu dulliau newydd o gyflwyno gwasanaethau'n integredig
- Hyfforddiant i ddarparu sgiliau, modelau ac offer i staff gyflwyno newid sefydliadol a gwella gwasanaethau.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth newydd a'r potensial i ddatblygu cynllunio i gefnogi gwaith ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, cysylltwch â Rheolwyr TYR De-Ddwyrain Cymru, Lisa Jones yn [lisa.jones@bridgend.gov.uk](mailto:lisa.jones@bridgend.gov.uk).

**...yn ôl i'r brig**

